AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Synod Cymru

Rhifyn 215 Hydref – Tachwedd 2018

# Gwyliedydd


















# Crwydro llefydd Sanctaidd: Tremargad

*gan Bet Holmes*

Wrth wylio'r *Tour de France* ar S4C eleni, a'r raswyr yn mynd trwy ganolbarth Llydaw, ces i f'atgoffa o ardal lle bues i'n mynd ar fy ngwyliau yn gyson dros 30 o flynyddoedd yn ôl: gwaelod Côtes d'Armor. Y dref agosaf, a'r un oedd ar y teledu, oedd Rostrenen, ond y pentref lle buon ni'n aros mewn *gîte* oedd Tremargad (Trémargat yn Ffrangeg).

Mae'n bentref gwahanol, os mynnwch, ac am fwy nag un rheswm. Yn y lle cyntaf, mae'n bentref cefn gwlad sydd yn tyfu. Pan es i yno gyntaf, rhyw 140 o bobl oedd yn byw yn y *commune* ond erbyn 2015 roedd nifer y pentrefwyr wedi cynyddu i 192. Mae llawer iawn ohonynt yn bobl ifainc sydd yn datblygu mentrau newydd ym meysydd amaethyddiaeth organig neu dwristiaeth werdd.

Rheswm arall yw'r eglwys, neu yn hytrach y darluniau ar y waliau. Ffresgos hynafol? Na, gwaith gan y darlunydd gwydr lliw, Hubert de Sainte-Marie, oedd yn byw yn yr ardal ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Mae wyth o ddarluniau, sy'n dilyn hanes Iesu rhwng Sul y Blodau a'r Croeshoeliad, a'r hyn sydd yn arbennig amdanynt yw'r ffaith bod y bobl Iddewig yn gwisgo dillad traddodiadol Llydewig, a'r milwyr yn gwisgo helmedau ac yn cario drylliau o gyfnod y 19eg ganrif efallai. Nid yr oes Rufeinig mohoni, felly. Mae llawer yn eu dibrisio, ond dwi'n gweld y lluniau yma yn ddiddorol am eu bod nhw yn codi'r cwestiwn ai *Iesu yr Iddew* sydd gyda ni yn yr Efengylau, rhywun sydd ymhell iawn oddi wrthym, yn byw mewn cymdeithas sy'n gwbl wahanol i'n byd ni, ynteu *Crist ein Cyfoeswr*. Dwi'n meddwl



am emyn John L. Bell, "Mae Iesu Grist yn aros, yn aros ar y stryd". Mae Iesu yn aros ar ein strydoedd ni heddiw, ac yn ein herio ni i anwybyddu drylliau y rhai sydd am ein rhwystro, er mwyn ei ddilyn nawr.

# Gair Bach

## gan Robin a Ffion

Gobeithio y mwynhewch y rhifyn lliwgar hwn! Diolch i Synod Cymru am sicrhau ein bod yn cael cyhoeddi'r *Gwyliedydd* mewn lliw llawn, a hefyd am gefnogi menter *CD y Gwyliedydd*. Cafodd y cryno ddisg cyntaf, gyda Bethan Dwyfor yn darllen rhifyn Awst-Medi, dderbyniad twymgalon. Cofiwch roi gwybod os gwyddoch am rywun sydd â nam ar y golwg ac a hoffai wrando ar fersiwn llafar. Diolch i'n cyfranwyr ac i bawb sy'n cefnogi'r *Gwyliedydd*. Diolch i Annest Rowlinson am ei chymorth ac am ddal ati i gyfrannu cartwnau – er bod y ddwy ferch fach a fu yn sail i'r cartwnau cyhyd wedi tyfu i fyny bellach, mae'n debyg! Mae'r holl adroddiadau gan y capeli yn dangos y gofal a'r dyfalbarhad ac, yn wir, y llawenydd sydd yn ein cynulleidfaoedd.

Fel y gwelwch yn ysgrif Jennie, a'r ysgrif heriol ar dudalen 9, rydym yn cael ein hannog i beidio ag aros yn ein hunfan fel Synod ond yn hytrach i geisio meddwl o ddifrif am ein bywyd gyda'n gilydd. Am y rheswm syml na fedr neb wneud popeth ar unwaith, bwriedir cymryd un thema ar y tro, o flwyddyn i flwyddyn, gan ddechrau'n awr gyda thema 'Bywyd Ysbrydol'. Er gwaethaf pob anhawster, daliwn ati i 'hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser, a byw'n wylaidd ac ufudd i Dduw' (Micha 6:8 beibl.net).


Synod Cymru

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 215**
**HYDREF – TACHWEDD 2018**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
1 TACHWEDD 2018

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i"Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Cynllun y clawr gan Annest Rowlinson


# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Mae blwyddyn gyfundebol arall wedi dechrau yn hanes yr Eglwys Fethodistaidd a braf iawn yw cael cyfle i ddymuno pob bendith i bawb ar gyfer 2018-19. Meddyliaf yn ôl at Fedi 1af 1993, a finnau'n weinidog newydd sbon yn eistedd yn fy stydi daclus (mae pethau wedi newid!) am naw o'r gloch y bore, gan ddisgwyl i'r ffôn ganu ac i rywun ofyn i'r gweinidog am gymorth mewn rhyw argyfwng. Ond ni chanodd y ffôn. Dim smic. Dim galwad o gwbl. Neb yn cysylltu. Codais y ffôn gwpl o weithiau i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio...Yn y pen draw, dechreuais ddewis emynau ar gyfer gwasanaethau'r Sul; cefais ginio a mynd allan i barhau i ddod i adnabod fy mhatsh newydd gan alw heibio un neu ddau o'n haelodau. Yn sicr ddigon, fe boethodd pethau yn y penodiad hwnnw ymhen amser – cefais fy siâr o ddrama, trist dweud – ond dechreuais ddysgu gwers bwysig, sef nad yw bywyd yn dân gwyllt, clychau a chwibanau bob dydd (diolch byth!). Ar y cyfan, mae geiriau *Caneuon Ffydd* 735 yn berthnasol: "Cred yn Nuw, a gwna dy waith"! "Dal ati," fel y byddai'r tiwtor Cymraeg yn ei ddweud wrthym bob wythnos yn y dosbarth. Cyngor doeth i ni fel Cristnogion hefyd!

Wedi gorffen prosiect "Datblygu Ein Galwad" dros y pedair blynedd diwethaf, lle buom yn canolbwyntio fesul un ar bedair thema "Ein Galwad" yr Eglwys Fethodistaidd (sef dysgu a gofalu, addoli, gwasanaethu ac efengylu), rydym yn cael ein hannog yn awr gan Synod i gymryd rhan mewn prosiect newydd. Mae hwn yn seiliedig ar y chwe thema a ddaeth i'r amlwg yn sgil Adolygu Bywyd Synod a Chylchdaith Cymru. I'ch atgoffa, y pethau ddaeth i'r amlwg oedd **bywyd ysbrydol, gwaith efo plant, iaith a dwyieithrwydd, estyn allan i'r gymuned, cyfathrebu a chydweithio**. Yn dilyn yr adolygiad hefyd, fe wnaethom benderfynu mynd at ein brodyr a'n chwiorydd yn Wales Synod a gofyn am drafodaethau ynghylch y posibilrwydd o greu un Synod newydd i'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru. Mae'r broses honno wedi dechrau, ac mae ymgynghori yn digwydd drwy'r ddwy Synod yr hydref hwn, er mwyn i ni rannu ein barn a'n teimladau am y cynnig.

Fodd bynnag, mae rhai o themâu'r adolygiad yn cael sylw yn barod a'r gobaith yw y cawn ehangu'r gwaith da. Cafodd y chwe thema eu canfod gan aelodau Synod Cymru mewn proses weddigar ac ystyrlon. Fe allwn gymryd mai dyna beth mae Duw eisiau i ni ffocysu arno yn ein bywyd eglwysig gyda'n gilydd, ac mae'n bwysig i ni gymryd perchnogaeth o'r themâu, sy'n uniongyrchol berthnasol i ni i gyd. Felly, gan ddechrau yn awr gyda thema Bywyd Ysbrydol, byddwn yn canolbwyntio ar un o'r themâu bob blwyddyn dros y chwe blynedd nesaf.

Nid oedd "Datblygu Ein Galwad" yn golygu gwneud rhywbeth mawr, cymhleth: mae'r un peth yn wir yma hefyd. Wedi'r cwbl, bywyd pob dydd yw ein bywyd ysbrydol. Mae'n hawdd meddwl ei fod yn golygu sut rydym ni'n gweddïo, yn darllen y Beibl, yn myfyrio ac yn y blaen. Ond mewn gwirionedd, mae ein bywyd ysbrydol yn cael ei fynegi ym mhob rhan o'n bywydau – y modd y byddwn yn treulio ein hamser, sut y byddwn yn gwario ein harian, ein gwleidyddiaeth, ein gwerthoedd, ein perthynasau gyda phawb a phopeth. Fel Cristnogion, mae popeth wedi'i wreiddio yn ein perthynas â Duw trwy Iesu Grist. Mae'r flwyddyn hon yn gyfle i ni ganolbwyntio yn arbennig ar y berthynas hanfodol, hollbwysig yma.

Cefais amser i feddwl am fy mywyd ysbrydol tra roeddwn i'n cerdded Ffordd St Chad o Gaer i Gaerlwytgoed ym mis Awst. Roedd y daith gyfan yn brofiad ysbrydol – corff, meddwl ac ysbryd – a chefais f'atgoffa sut mae popeth yn gysylltiedig a ninnau'n bobl gyflawn, wedi ein gwneud ar ddelw Duw a ddaeth yn ddynol ac yn gnawd fel ni yn Iesu. Mae'r meddwl yn effeithio ar y corff, a'r corff ar y meddwl, a'r meddwl ar yr ysbryd, ac ati. Fel mae Duw y Drindod yn Un, rydym ninnau'n fodau unedig, cyflawn – mae'n annoeth ceisio gwahanu beth a phwy ydym. Weithiau, hefyd, mae llai yn fwy! Wrth i ni ffocysu ar thema bywyd ysbrydol eleni, gawn ni geisio mynd yn ddwfn yn hytrach na cheisio gwneud peth wmbredd o bethau. Does nunlle tu hwnt i bresenoldeb Duw, a byddwn yn ei gyfarfod yn y dyfnderoedd hefyd, a derbyn ei fendith.

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Ganwyd Albrecht Dürer (1471-1528) yn Nuremberg, yr Almaen, dinas gyda phoblogaeth o 50,000. Safai'r ddinas ar groesffordd yng nghalon Ewrop. Gofaint aur oedd ei dad, Albrecht, a'i fam Barbara hithau yn ferch i eurych. Gobaith y tad oedd y byddai'r mab yn ei ddilyn i fusnes y teulu. Ond troi at arlunio wnaeth y bachgen pymtheg oed a mynd yn brentis i'r arlunydd Michael Wolgemut yn Nuremberg. Mae'r darlun a wnaeth o'i dad yn brawf pendant fod y gŵr ifanc ar y ffordd i fod yn artist pwysig cyn iddo droi'n ugain oed. Yn ôl arfer yr oes cafodd gyfle i deithio i wledydd eraill Ewrop. Gwyddom iddo dreulio amser yn y Swistir, Ffrainc a dau dymor yn yr Eidal. Erbyn 1507 roedd yn ôl yn Nuremberg ac wedi datblygu i fod y mwyaf o artistiaid Gogledd Ewrop gyda galw mawr am ei waith. Ymhlith ei ddarnau pwysicaf y mae *Galarnad Crist* (1500), *Adda ac Efa* (1507), *Y Forwyn a'r Baban* (1512), *Addoliad y Doethion* (1514) a'r *Pedwar Apostol* (1526).

Erbyn 1517 fe wyddom fod Ewrop ar fin chwyldro crefyddol gyda Martin Luther (1483-1546) yn cyhoeddi ei wrthwynebiadau i'r Babaeth. Fe effeithiodd y Chwyldro Protestannaidd yn drwm ar yr Almaen ac er na welodd Dürer Luther erioed roedd Albrecht wedi anfon nifer o brintiau at y diwygiwr a gwneud portread o ffrind mawr Luther sef Philip Melanchthon (1497-1560). Gydol ei oes roedd Dürer yn cynhyrchu darluniau crefyddol o bob math ond efallai mai ei waith fel ysgythrwr ar goed a metel a ddaeth ag ef i sylw'r werin yn gyffredinol. Mae ei ddarluniau pren o *Sant Thomas* (1514), y *Rhinoseros* (1515), *Y Marchog, Marwolaeth a'r Diafol* (1513) ac *Erasmus* (1526) yn enghreifftiau o'r grefft hon ar ei gorau oherwydd y cymhlethdod ynddynt na welwyd cynt na chwedyn.

Rhaid cydnabod hefyd bod Dürer wedi treulio llawer o amser yn ysgrifennu llyfrau ar Fesuriadau ac Amddiffynfeydd a gwaith ar Gymesuredd Dynol ond efallai ei fod i'w weld ar ei fwyaf annwyl yn y gweithiau dyfrlliw a beintiodd o *Ysgyfarnog Ifanc* (1502), a *Darn o Dywarchen* (1503). Fe ddywedir mai ef oedd rhagflaenydd dyfrlliw modern.

Gellir dweud heb betruso mai gwaith mwyaf enwog Dürer heddiw yw ei ddarlun brws ac inc ar bapur glas sef *Dwy Law yn Erfyn* (1508). Mae copïau o'r gwaith mewn pren, metel, crochenwaith ac ar bapur i'w gweld yn ein siopau ac mae cân grefyddol T Rowland Hughes wedi serio'r cyfan nid yn unig ar y llygaid ond ar y cof hefyd. Gallwn ddarllen gweddi ond ni allwn ei gweld yn dyrchafu at Dduw. Ond rhywsut rhywfodd mae dwylo gweddigar Dürer yn llefaru wrthym 510 o flynyddoedd ar ôl eu peintio.

Mae'r cyfeiriad cyntaf at weddïo yn y Beibl i'w weld yn Genesis 20:17. Abraham, tad y genedl, sy'n gweddïo ar Dduw dros Abimelech yn y bennod ryfedd honno sy'n sôn am dwyll Abraham a chwant cnawdol Abimelech. Mae cyfeiriad at weddi yn gyson drwy'r Hen Destament ac fe ddaw i'w anterth yn y Testament Newydd gyda chyfarwyddiadau Iesu i'w ddisgyblion ac wrth gwrs Gweddi'r Arglwydd sef y rhodd fawr i deulu'r ffydd. Yn ddiddorol iawn nid oes orchymyn am sut i weddïo ond ceir cyfeiriadau yn y ddau Destament at eistedd, sefyll, penlinio, ymgrymu, gorwedd a chodi dwylo wrth weddïo. Mae'n debyg bod yr ystum a ddarlunnir gan Dürer yn dilyn yr hyn a geir yn 1 Timotheus 2:8 - *"Y mae'n ddymuniad gennyf, felly, fod y gwŷr ym mhob cynulleidfa yn gweddïo, gan ddyrchafu eu dwylo mewn sancteiddrwydd, heb na dicter na dadl".*

Yr hyn a wnaeth y Diwygiad Protestannaidd a'r Diwygiad Methodistaidd yn arbennig oedd dod â gweddi yn ôl i fywydau pobl nid yn unig mewn gwasanaeth crefyddol ond fel rhan hefyd o fywyd pob dydd. Disgwylid i'r Iddewon weddïo am 9 o'r gloch y bore, am dri'r prynhawn ac ar fachlud haul; nid yw'n syndod felly bod ein cyndeidiau yn gweddïo gyda'r teulu cyn dechrau gwaith ac wrth gwrs wrth noswylio. Fe fyddai'n arferiad offrymu gweddi cyn pob pryd bwyd hefyd ym mhlastai'r bonedd ac ym mythynnod y tlawd.

Fe wyddom fod yr awydd i gynnal cyfarfod gweddi wedi lleihau'n enbyd gyda'r canlyniad bod llai yn fodlon ac abl i offrymu gweddi gyhoeddus. Efallai bod ein cyndeidiau wedi bod yn rhy barod i weddïo o'r frest heb sylweddoli bod pob gwir weddi yn ffrwyth myfyrdod. Ni wn i o ble ddaeth yr hen ddywediad *'Gwell na gweddi faith yw gweddi fer mewn dillad gwaith'*. Tybed nad oedd Amanwy wedi ei gweld hi pan ddywedodd, *'Gan Iôr y weddi orau / yw'r un ddwys mewn gair neu ddau'.*

Unigolyn yn siarad â Duw yw pob gweddi yn y bôn a'n gobaith yw bod Duw yn ein clywed. Fe fydd yn rhaid inni fod yn barod wrth gwrs i dderbyn distawrwydd Duw yn ogystal â'i atebion. Fel yr hen ofalwr yn *Saer Doliau* oedd byth a hefyd yn ffonio'r giaffar heb gael ateb, mae'n rhaid bod wrth law rhag ofn i'r ffôn ganu.

Un o'r pethau olaf a glywais gan y diweddar Barchedig Dafydd Henri Edwards oedd y dywediad hwn. Meddai D H, *'Gweddi yw teleffon teulu ffydd'.* Dywediad y dylem oll ei gofio a'i drysori yn wir.



# Goleuni Dan Lestr

*gan Hefin Williams*



Gwirionedd, cymdeithas, llawenydd... pethau y mae pobl yn dyheu amdanynt ac y mae'r Eglwys yn eu cynnig. Ac eto, fe dueddwn i guddio ein goleuni dan lestr. Mae'n rhaid i ni geisio cysylltu'n well â'r gymuned o'n cwmpas, fel y caiff pobl eu denu i fod eisiau gwybod mwy.

Sut mae mynd ati i wneud hynny? Does neb yn smalio ei fod yn waith hawdd! Er mwyn dysgu gan arbenigwr yn y maes, aeth Hefin a Ffion (sy'n rhan o "Grŵp Thema Cyfathrebu" Synod Cymru) draw i'r Wyddgrug yr haf yma i gael hyfforddiant gan Steve Adams, cyn Bennaeth Cyfathrebu Byd-eang Tearfund.

Roedd tua 60 yn bresennol yn y Diwrnod Hyfforddi, o wahanol gapeli ac eglwysi yn y Gogledd. Tynnwyd ein sylw at lawer o enghreifftiau o arfer da ac arfer gwael, drwy gymorth sleidiau gwych. Gan fod cyfleon i holi, roedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o'r eglwysi yn wynebu sialensiau tebyg, boed yn gapel bychan yng nghefn gwlad neu gapel mawr ynghanol tref neu ddinas.

Gadewch i ni ystyried beth allwn ni ei wneud! Beth am:

- Ystyried yr hysbysfwrdd tu allan i'r Eglwys. Da o beth yw cynnwys mwy na dim ond amserlen gwasanaethau a nodi unrhyw weithgareddau eraill fel bore coffi, clwb plant, meithrinfa, bingo ayyb...
- Taflenni newyddion (dwyieithog) i'w rhannu yn y gymdogaeth er mwyn ennyn diddordeb yn y capel.
- Defnyddio'r dulliau diweddaraf i gyfathrebu gan dargedu pob oedran. Safle we a gweplyfr.
- Trafod ar lafar ac annog bedyddio, derbyn, priodi ac angladdau yn eich Eglwys.
- Rhannu arferion da ymysg eglwysi. Peidio bod ofn arbrofi – ni fydd pob ymdrech yn llwyddiannus!

Tra yno cymerais y cyfle i gael sgwrs â Steve a phrynu llyfr a gyhoeddodd yn ddiweddar ar gyfathrebu er mwyn gweithredu, sef "The Centre Brain – 5 prompts to persuasive power". Gadewch i ni ddysgu a benthyg syniadau o fyd busnes a hysbysebu, er mwyn lledaenu'r Efengyl.



## Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

### HYDREF

7. Glannau Meirion a Dyfi
14. Glannau Maelor
21. Gwyliau
28. Dyffryn Clwyd

### TACHWEDD

4. Llanrhaeadr
11. Glannau Maelor
18. Morgannwg
25. Powys

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Bethel, Prestatyn

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau mawr i Lowri Mai sydd wedi ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Gwyddorau Meddygol ym Mhrifysgol Bangor, hefyd i Hannah Hughes a benodwyd i swydd newydd gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn Lerpwl. Dymunwn bob llwyddiant i'r ddwy yn y dyfodol.

**Y GYMANFA GANU GYDENWADOL**
Cynhaliwyd y Gymanfa ym Mynydd Seion, Abergele eleni ac aeth nifer o aelodau Bethel yno i fwynhau. Mr Dilwyn Price oedd yr arweinydd a chafwyd llawer o hwyl yng nghyfarfod y bore gyda Dilwyn yn ein harwain drwy'r symudiadau yn ystod y canu. Roedd y plant wrth eu boddau fel y gwelwch yn y llun.



Yn y Gymanfa

**SUL YR ARDAL**
Gan mai Bethel yw'r unig Ysgol Sul yn ein hardal ni yn awr, ni chynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul ond yn hytrach cynhaliwyd 'Sul yr Ardal' er mwyn rhoi cyfle i'r capeli ddod at ei gilydd. Cawsom fore arbennig yng nghwmni'r Parchedig Philip Barnett.

**CYFARFOD PREGETHU**
Cawsom groesawu'r Parchedig John Gwilym Jones i'n Cyfarfod Pregethu eleni. Diolchwn iddo am ei neges.

**YR YSGOL SUL**
Dathlwyd diwedd tymor yr Ysgol Sul eleni gyda choffi a 'bwffe siocled' ar derfyn y gwasanaeth. Diolch yn fawr i'r Parchedig Phillip Barnett am y stori i'r plant ynglŷn â'r gystadleuaeth rhwng y gwynt a'r haul a phwysigrwydd trin pobl yn garedig. Cawsom lawer o hwyl yn actio'r stori yn yr Ysgol Sul. Diolch o galon i'r holl rieni am eu cefnogaeth a'u rhoddion hael yn ystod y flwyddyn.



Actio stori'r gwynt a'r haul



Prysurdeb yr Ysgol Sul



Y plant lleiaf

**PANED A SGWRS**
Daw amryw o'r aelodau a ffrindiau at ei gilydd ar foreau Mercher ar gyfer 'Paned a Sgwrs'. Croeso i bawb ymuno â ni rhwng 10.00 a 11.30 y.b. Cyflwynodd y grŵp rodd o £100 i'r Ysgol Sul a defnyddiwyd yr arian ar gyfer ein gwibdaith.

**TRIP YR YSGOL SUL**
Cawsom ddiwrnod difyr ym Mharc Antur Abergele yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd digon i'w wneud yno ac roedd hi'n braf ymlacio a sgwrsio â phawb wrth fwyta ein picnic.



**Y BOCS BWYD**
Diolch o galon i bawb am eu cyfraniadau i'r Bocs Bwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r bwyd yn mynd yn rhan o Fanc Bwyd Prestatyn i'r digartref.

**CLEIFION**
Gweddïwn dros ein holl aelodau sydd ym methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd. Cofiwn yn arbennig am Rhys Wyn Thomas sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty a'r Parchedig Thomas Evans Williams, cyfaill annwyl i Fethel.

**GOHEBYDD** . GWENDA HUMPHRIES

### Pendref, Yr Wyddgrug

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â'r Parchedig Marc Morgan a gollodd ei fam yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion at y teulu oll yn eu galar.

Bu farw Rhoda Jones yn annisgwyl iawn yn Ysbyty Gwynedd; anfonwn ein cofion at Linda a Selwyn a'u teuluoedd. Aelod gyda'r Annibynwyr oedd Rhoda, yn enedigol o Foelfre, Sir Fôn. Byddwn ninnau ym Mhendref a Bethel yn teimlo'r golled.

**ADDOLI**
Diolchwn i'r Ysgrifenyddion, Richard Francis Jones (Pendref) a Gwilym Antur (Bethel), am ofalu am y pulpud. Fel un fu'n cyflawni'r un orchwyl, diddorol yw sylwi ar y gwahanol ddulliau sydd gan bob pregethwr o arwain y gwasanaeth.

Rhaid peidio ag anghofio am yr athrawon yn yr Ysgol Sul sy'n hyfforddi'r plant, a chawn Sul ganddynt hwy yn achlysurol – a'i fwynhau yn fawr iawn!

**CAWN ETO GWRDD**
Bu Richard Jones, ysgrifennydd Pendref, yn gyd-ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Bae Colwyn â Iorwerth Roberts a'i chwaer Aluna, y tri hefyd yn aelodau yn Horeb, Bae Colwyn, pan oedd tad Iorwerth ac Aluna (y diweddar Barchedig John Alun Roberts) yn weinidog yno rhwng 1955 a 1960. Erbyn hyn wrth gwrs mae Iorwerth yn byw yn Norwy ac ef oedd Llywydd y Cymry a'r Byd yn Eisteddfod Caerdydd eleni. Braf iawn oedd cael cyfarfod ym Mae Caerdydd a mwynhau sgwrs.



O'r chwith i'r dde, Aluna, Iorwerth a Richard

**GOHEBYDD** . Y PARCHG. J. BRYN JONES

### Pendref, Dinbych

**GWASANAETHAU**
Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Gorffennaf dan ofal y Parchedig Peter Jennings, Richard G Jones (Pontfadog), y Parchedig Ganon Philip Williams a'r Parchedig Glyn Thomas. Yn anffodus, oherwydd gwaeledd, ni chawsom gwmni'r Parchedig Thomas E Williams – anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan iddo a gobeithio y cawn ei gwmni ym mis Tachwedd. Yn ystod Awst cynhaliwyd oedfaon undebol yn nhref Dinbych gyda gwasanaethau yn y Capel Mawr, Capel Lôn Swan, Capel y Fron a Chapel Pendref. Roedd y gwasanaeth yma ym Mhendref dan ofal y Parchedig Gwilym O Jones a braf oedd gweld y Festri Fawr yn llawn i'r ymylon. Ein cofion cynhesaf at yr aelodau hynny na allant fod gyda ni oherwydd gwaeledd.

**NEWYDD DA**
Gwnaed cytundeb â chontractwr newydd, gyda'r gwaith i ddechrau ym mis Hydref gan obeithio y bydd wedi ei gwblhau cyn y gaeaf. Fel eglwys rydym yn hynod ddiolchgar am amynedd a chefnogaeth y Gylchdaith a'r Synod. Ar ôl cwblhau'r gwaith ar y to bydd angen symud ymlaen â'r gwaith o drwsio'r nenfwd. Hyfryd o beth fyddai gweld yr holl waith wedi ei orffen a chael ail agor y capel yn y Gwanwyn os yn bosibl.

**BLODAU HYFRYD**
Mae un o'n haelodau, Geraint Roberts, wedi cael tymor bendigedig yn tyfu rhosod (Magic Carpet) a hoffai rannu llun â darllenwyr y *Gwyliedydd*.



**CINIO BLYNYDDOL**
Byddwn yn cynnal ein cinio blynyddol ddydd Sadwrn Tachwedd 10fed ym Melin Brwcws am hanner dydd.



Llun Rheilen Gymun Pendref, y soniwyd amdani yn y rhifyn diwethaf

**GOHEBYDD** . MARY JONES

### Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan at Mrs. Eirwen Jones.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i'r ieuenctid sydd wedi bod yn llwyddiannus yn eu harholiadau. Pob lwc i Mia a Hannah yn y 6ed dosbarth yn Ysgol y Creuddyn a hefyd i Cai yng Ngholeg Glynllifon.

**OEDFAON**
Cawsom wasanaethau undebol bendithiol iawn yn ystod mis Awst, yn y Capel Coffa, Pensarn a Phreswylfa.

**GOHEBYDD** . EIRIAN JONES

### Bethel, Rhiwbeina

**PREGETHWYR**
Yn ystod mis Gorffennaf cawsom gwmni'r Parchedig Aled Gwyn, Mrs Helen Jones a'r Parchedig R Alun Evans ac ar ddau fore Sul bu ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan yn ein harwain.

**PRIODAS**
Yn ystod y mis bu digwyddiad pleserus iawn yn y capel sef priodas Rachel Rawlins a Ben King. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Evan Morgan. Roedd Rachel yn un o blant Rhiwbeina ac yn aelod o Ysgol Sul Bethel. Mae Rachel a Ben wedi ymgartrefu yn Llundain a dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.

**YMWELWYR EISTEDDFODOL**
Ar fore Sadwrn olaf Eisteddfod Caerdydd daeth llond bws o Eisteddfodwyr i Fethel dan arweiniad Emyr a Myra Jenkins i glywed sgyrsiau am enwogion Rhiwbeina ac i wrando ar Gwilym Roberts yn sôn am sefydlu Cylch Meithrin Rhiwbeina. Ers blynyddoedd mae'r Cylch yn cyfarfod yn festri Bethel ac yn dal i ffynnu; y flwyddyn nesaf dethlir 60 mlynedd ers ei sefydlu.

**GOHEBYDD** . GWILYM E. ROBERTS

### Pisgah, Rhiwlas


**CYDYMDEIMLO**
Wrth i'r *Gwyliedydd* fynd i'r wasg, daeth y newydd trist am farwolaeth un o'n haelodau ffyddlon sef Heulwen Evans. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu. Cydymdeimlwn hefyd â Iona Jones ac Einir Wyn-Williams, y bu farw cyfnither iddynt, Enid Harlow, yng Nghaergybi ddechrau Awst.

**DIOLCH**
Dymuniadau gorau i Gareth Williams ar ei ben-blwydd. Diolchwn yn fawr i Gareth am ei waith da dros nifer o flynyddoedd yn casglu at y Genhadaeth. Mae'n derbyn Tystysgrif Hir Wasanaeth eleni.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad llwyr a buan i Dilys Parry, na fu'n teimlo'n rhy dda yn ystod yr haf.

**LLWYDDIANT YN YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL**
Llongyfarchiadau i Manon Steffan Ross, un o gyn-aelodau Ysgol Sul Capel Pisgah, ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd, lle'r enillodd y Fedal Ryddiaith. Llongyfarchwn yn ogystal ei chwaer Lleuwen Steffan ar ei pherfformiad gyda Chwmni Bara Caws yn yr Eisteddfod. Braf oedd cael cwmni Lleuwen adref yn Rhiwlas yn ystod yr haf.

**GOHEBYDD** . EINIR WILLIAMS



# Bywyd Ysbrydol

## gan y Parchedig Martin Evans-Jones

**Actau 2.42:**
**"**Roedden nhw'n dal ati o ddifri – yn dilyn beth oedd yr apostolion yn ei ddysgu, yn rhannu popeth, yn bwyta a dathlu Swper yr Arglwydd ac yn gweddïo gyda'i gilydd".

Mae hyn yn digwydd yn syth ar ôl cynnwrf emosiynol dydd y Pentecost, yn sgil pregeth danllyd Pedr a'r tafodau o dân, pan enillwyd 3000 o eneidiau i'r eglwys, yn llawn o frwdfrydedd heintus. Ond nid yw Luc, yn ei adroddiad, yn ein gadael fanno. Mae'n mynd yn syth i ddangos sut mae'r eglwys yn ymgorffori'r brwdfrydedd yma mewn pedair ffordd.

1. Maent yn ymroi i "*ddilyn beth oedd yr apostolion yn ei ddysgu*". Nid ar brofiadau emosiynol yn unig y mae'r eglwys i fod i fyw, ond ar bori ar ystyr yr efengyl a beth mae'n ei olygu yn ein bywydau beunyddiol ni.
2. Mae'r eglwys "*yn rhannu popeth*",mewn cymdeithas ddofn â'i gilydd, yn cyfaddef eu pechodau i'w gilydd, yn maddau i'w gilydd, yn tystio i'w gilydd sut mae Crist yn eu gweddnewid o ddydd i ddydd, yn "*cario beichiau ei gilydd*" (Galatiaid 6.2) pan fydd bywyd yn galed.
3. Maent "*yn bwyta a dathlu Swper yr Arglwydd*". Mae bwyta gyda'n gilydd yn arwydd o undeb, bod yn gytûn, cefnogi'n gilydd, lle mae'r gwrthfuriau yn disgyn a gelyniaeth yn troi'n gyfeillgarwch dwfn. Coronir hyn trwy rannu'r bara a'r gwin gyda'n gilydd er cof am aberth Crist trosom.
4. Mae'r eglwys yn gymuned sydd yn "*gweddïo gyda'i gilydd*". Maent yn sylweddoli na allant gyflawni dim byd heb i'w bywyd gael ei seilio ar weddi, gan gredu fod Duw yn ateb ein gweddïau. Dyma sut mae'r Ysbryd yn gweithio trwy weithgareddau'r eglwys, boed yn glwb i'r henoed neu yn feithrinfa i blant bach, neu yn fore coffi.

Dywedodd Williams Pantycelyn: "*Offeryn yw'r seiat i gadw gwres y profiad cyntaf ac i arwain gyrfa'r Cristion ar hyd llinell gyfeiriol ei dröedigaeth*". Gwendid ein heglwysi heddiw yw nad oes unrhyw gyfarfod wythnosol lle mae'r aelodau'n cyfarfod i rannu pethau dwfn eu calonnau, i dystio am eu ffydd, ac i gynnal ei gilydd ac eraill mewn gweddi. Dyma gyfrinach tyfiant syfrdanol Methodistiaeth o dan John Wesley, sef y seiadau bychain hyn oedd yn cyfarfod bob wythnos fel y gwnaeth yr eglwys fore o ddydd y Pentecost ymlaen.

a. A oes gennych chwi gyfarfod wythnosol fel hyn yn eich eglwys chwi? Os nad oes, cychwynnwch un!
b. Ydych chi wedi cynnal gwasanaeth lle mae rhywun yn ddigon dewr i roi tystiolaeth bersonol o sut y daeth yn Gristion? Beth am i chi gynnig eich hunan i'ch gweinidog i wneud hynny?
c. I ba raddau ydych chi, yn eich eglwys chi, yn rhannu eich profiadau personol, eich pryderon, eich temtasiynau, eich anawsterau, fel Cristion yn eich bywyd beunyddiol? Faint ydych chi'n ei wybod, o ddifrif, am eich gilydd? Ydi hi ddim yn hen bryd i chi gychwyn arni?

# Gair Duw


**Emyn gan Dafydd Watkin**

Mor hyfryd yw Dy air, O Dduw!
Rhydd bleser gwiw i'm henaid.
Fe gyfarwydda gamre'r saint,
Cyffelyb yw i ennaint.

Fe ddysg yr Ysbryd Glân o'i ras
Im bwyso ar yr Iesu,
Cans yn y gair disgleirio mae
Trysorau'n llawn i'n synnu.

Trysorau a fu'n gudd cyhyd,
Fe'u gwelir yn eu harddwch.
Cyfamod gras o drefniant pur
Sy'n datgan llwybr heddwch.

Rhyfeddwn am ddatguddiad rhad
O'r ffordd i gadw'r euog.
Diolchwn am Dy ras di-drai,
Dihafal yw Dy gariad.



# 'Colled Aruthrol i Gerddoriaeth Cymru'

## gan Gareth Blainey

'Colled aruthrol i gerddoriaeth Cymru – yn wir, wn i ddim am unrhyw gyfansoddwr ifanc o Brydain ddangosodd gymaint o addewid.'

Dyna gyfieithiad o deyrnged David Evans ym mhapur newydd y *South Wales Evening News* ar 9 Tachwedd 1918 i'r gyfansoddwraig Morfydd Owen a fu farw ar 7 Medi 1918 a hithau ond yn 26 oed. Athro Adran Gerdd Prifysgol Caerdydd oedd David Evans ac roedd wedi gweld 'addewid' y ferch a aned yn Nhrefforest yn ymyl Pontypridd ar 1 Hydref 1891. Yn 16 oed dechreuodd hi astudio yn breifat gydag ef cyn iddi ennill ysgoloriaeth i'r Brifysgol ddwy flynedd yn ddiweddarach. Yng Nghaerdydd disgleiriodd fel pianydd ond roedd ei dawn i gyfansoddi yn fwy fyth ac ar ôl graddio ym 1912 aeth i astudio yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain. Yn ystod ei blwyddyn gyntaf yn yr Academi cyfansoddodd ei gwaith mwyaf adnabyddus – 'Gweddi y Pechadur'. Gosodiad yw hwn o emyn Thomas William sydd â'r pedair llinell gyntaf yma:

'O'th flaen , O Dduw, rwy'n dyfod
gan sefyll o hirbell;
pechadur yw fy enw,
ni feddaf enw gwell;'

Ar ddiwedd ei blwyddyn gyntaf yn yr Academi enillodd hi fedal arian am ddarn i gerddorfa – "Nocturne". Cafodd y gwaith hwn ei berfformio yn un o gyngherddau'r "Proms" yn Llundain ym mis Gorffennaf eleni i nodi canmlwyddiant ei marwolaeth.

Bu farw Morfydd Owen ar ôl llawdriniaeth i dynnu ei hapendics a gynhaliwyd yng nghartref ei rhieni-yng-nghyfraith yn y Mwmbwls yn ymyl Abertawe ychydig mwy na 18 mis ar ôl iddi briodi'r seicdreiddiwr (psychoanalyst) Ernest Jones o Dregŵyr. Daeth y briodas dan straen gan fod Jones yn anffyddiwr a geisiodd ddwyn perswâd ar ei wraig i gefnu ar ei chrefydd a'r capel – roedd hi'n aelod o gapel Charing Cross yn Llundain. Mynnodd hefyd ei bod hi'n treulio rhan helaeth o'i hamser yn cyflawni dyletswyddau gwraig tŷ ac oherwydd hynny ychydig iawn a gyfansoddodd hi ar ôl priodi.

Mae'n wych o beth ei bod hi wedi cyfansoddi cymaint cyn priodi ac ar ôl imi wrando droeon ar y 'Nocturne' a 'Gweddi y Pechadur' cyn ysgrifennu'r erthygl hon fedra i ddim llai na chytuno gyda David Evans mai 'colled aruthrol i gerddoriaeth Cymru' oedd marwolaeth ddisymwth Morfydd Owen.

Wrth baratoi'r erthygl hon darllenais waith ymchwil manwl Dr Rhian Davies ar wefan www.illuminatewomensmusic.co.uk. Enillodd hi ei doethuriaeth am draethawd hir ar Morfydd Owen. Ewch i'r wefan i gael gwybod mwy am ei bywyd a'i cherddoriaeth.



# O'r **Pen Yma**

gan **Angharad Tomos**

Rai wythnosau yn ôl, roedd y dŵr yn araf iawn yn dod o dap y gegin. Yn y diwedd, stopiodd yn gyfan gwbl. Es i banig llwyr. (A bod yn deg, dydi hyn ddim wedi digwydd ers amser maith iawn).

"Does dim dŵr!" gwaeddais, a'm calon yn suddo wrth edrych ar y pentwr o lestri budr oedd yn aros i gael eu golchi.

"Dim dŵr?" gwaeddodd llais o'r tŷ bach. "Wnaiff y toiled ddim gweithio felly!"

Ochenaid arall. Dim dŵr? Doeddwn i ddim wedi cael fy mhaned eto. Gydag ochenaid o ryddhad, sylwais fod mymryn yng ngwaelod y tecell. Teimlwn yn chwerw nad oeddem wedi cael rhybudd. Gallwn fod wedi llenwi pob sosban a jwg yn y tŷ. Dyna ddiwedd ar olchi'r dillad bore wedyn. A daria, allwn i ddim golchi'r llawr chwaith...A brensiach y bratia, allwn i ddim cael cawod – ni fedrwn hyd yn oed ymolchi na glanhau fy nannedd. Sut byddwn i'n coginio y diwrnod canlynol? Mae angen dŵr i bopeth. Ffoniais drws nesa – doedd gan fy nghymydog ddim dŵr chwaith. Ffoniodd rhywun ein tŷ ni – dim dŵr ... oedd rhywun wedi ffonio'r Bwrdd Dŵr i riportio yr argyfwng?

Doedd dim byd amdani, ond eistedd i lawr efo mhaned a derbyn nad oedd y llestri am gael eu golchi. Ond roeddwn yn Hynod Flin am yr holl sefyllfa. Roedd yn anghyfleustra mawr. Yn hwyrach y noson honno, roedd dŵr yn llifo o'r tap yn burion, ac roedd fy myd yn iawn unwaith yn rhagor.

Mae gen i gywilydd i mi ymateb yn y fath fodd. 99% o'r amser, dydw i ddim yn ddiolchgar o gwbl am fy nghyflenwad dŵr. Fe'i cymeraf mor ganiataol â'r aer rwy'n ei anadlu. Mae gen i hawl i ddŵr glân, ac amhosibl yw byw hebddo. Ond does gen i ddim hawl iddo o gwbl wrth gwrs. Bendith ydyw, a chyfleuster i'm byd moethus Gorllewinol.

Y tro nesaf y clywaf am brinder dŵr yng ngwledydd Affrica, gobeithio y byddaf yn cofio fy argyfwng bach a barodd am ddwy awr. Bore fory, wrth ymolchi a glanhau'r tŷ, a choginio a defnyddio'r tŷ bach, gobeithio y byddaf yn cyfrif fy mendithion. Boed i mi gofio am daith faith fy chwiorydd mewn gwlad arall i gerdded milltiroedd i'r ffynnon agosaf.

Yr haf hwn, cawsom gip ar ystyr sychder. Wedi rhyw ddeufis o dywydd sych, fe ddaeth y glaw. Ond mae anifeiliaid wedi dioddef, a bydd bywyd ffermwyr yn dipyn anos yr hydref hwn. Ond dychmygwch sut y byddai pethau petai'r gwres wedi parhau.

Yn nhymor Diolchgarwch, dwi'n mynd i ddiolch am ddŵr eleni. Dim mewn un weddi fechan, ond ceisio teimlo yn wirioneddol ddiolchgar.



# Capel Ni yn Eglwys Iesu

## Salem, Rhyd y Foel



### SUL Y GERDDI AGORED

Ddydd Sul 15 Gorffennaf drwy gydweithrediad â'r Groes Goch cafwyd diwrnod hyfryd yn y pentref gyda phobl yn agor eu gerddi i'r cyhoedd. Y thema eleni oedd "Blwyddyn y Môr". Bu gwasanaeth yn Salem yn y bore dan ofal Dr Prydwen Elfed Owens gyda chynulleidfa deilwng iawn yn bresennol ac roedd pob sil ffenest wedi'i addurno gan aelodau'r capel a phobl leol i gyd-fynd â'r thema. Cafwyd paned i ddilyn ac roedd y capel ar agor drwy'r dydd er mwyn i'r ymwelwyr droi i mewn i edmygu'r capel a'r arddangosfa o flodau ac i gymdeithasu.

**GOHEBYDD** . SIÂN PRICE





## St Paul, Aberystwyth

### LLONGYFARCHIADAU

Roeddem i gyd yn falch iawn o glywed am lwyddiant Beatrice Edwards, merch Mr Michael a Mrs Fran Edwards, yn ei chwrs ym Mhrifysgol Dinas Birmingham. Enillodd Beatrice radd dosbarth cyntaf mewn Cyfryngau a Chyfathrebu. Anfonwn ati ein llongyfarchiadau cynhesaf a'n dymuniadau gorau at y dyfodol.

### CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Buddug Jenkins, y bu farw ei brawd sef Mr Dewi Wyn Evans ('Dewi Garej') o Cemmaes Road.

### GWASANAETHAU

Yn ôl ein harfer ymunodd ein cynulleidfa â chapeli eraill y dref ar gyfer ein holl wasanaethau ym mis Awst. Cynhaliwyd oedfaon eleni yng Nghapel y Morfa (Presbyteriaid), Soar (Annibynwyr) a Bethel (Bedyddwyr).

**GOHEBYDD** . LIONEL MADDEN

## Ebeneser, Trefor, Môn

### LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau i Mared Foulkes ar ei llwyddiant gyda'r arholiadau Safon Uwch. Dymunwn yn dda iddi ym Mhrifysgol Caerdydd. Cafodd ei brawd Arwyn lwyddiant hefyd gyda'i arholiadau TGAU – dymuniadau gorau iddo yntau.

**GOHEBYDD** . CARYS THOMAS

## Ebeneser, Eglwysbach

### BEDYDD

Bu gwasanaeth arbennig fore Sul Gorffennaf 8fed, o dan arweiniad y Parchedig R. Ifor Jones, gyda Mrs Diana Hughes wrth yr organ, pryd y bedyddiwyd Harri Idris, mab Edward ac Eurgain Nutting. Braf oedd croesawu teulu a ffrindiau ac aelodau Ebeneser i'r achlysur llawen.

**GOHEBYDD** . CHARLES CRAPPER



## Tabernacl, Llanfyllin

### GWEITHREDU DROS BLANT

Ym mis Gorffennaf fe gynhaliwyd oedfa flynyddol Gweithredu Dros Blant. Gwnaed y trefniadau gan y swyddogion lleol, Keith a Decia Blacker. Cymerwyd rhan gan Tom, Mair, Crystal, Keith, Decia a Llinos gydag Eldrydd wrth yr organ. Clywsom hanes prosiect Cynnal Plant yn y Drenewydd gan Barbara a Theresa a gwnaed casgliad o £87.50 er budd Gweithredu Dros Blant. Diolch i Alwena Francis a Mair Ellis am ofalu am y paned yn dilyn yr oedfa.

### CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â Mrs Ann Williams a'r teulu oll, ym marwolaeth sydyn Mr Norman Williams. Roedd yn gymeriad hoffus ac adnabyddus yn y dref a'r ardal. Yn y gwasanaeth angladdol yn y Tabernacl, dan ofal y Parchedig Gwyndaf Richards, roedd Eldrydd Jones wrth yr organ a chymerwyd rhan gan Tom Ellis. Cafwyd teyrngedau gan Morwenna Franssens (nith Norman) a Mathew Thomas (yn cynrychioli Heddlu Dyfed Powys) gan fod Norman wedi gweithredu fel Heddwas Gwirfoddol yn yr ardal.

Cydymdeimlwn yn gywir iawn â theulu'r diweddar Dr Llewelyn Jones yn enwedig ei frawd Geraint Hafodunos a'r ddwy ferch Eleri a Susan a'u teuluoedd. Roedd wedi bod yn feddyg teulu lleol am nifer fawr o flynyddoedd ac yn fawr ei barch.

### DRWS AGORED

Ar ddiwrnod eithriadol o braf, aeth aelodau Drws Agored ar ein gwibdaith flynyddol i eglwys hynafol Llanyblodwel – eglwys hynod o ddiddorol a deniadol yn dyddio yn ôl i'r 12fed ganrif. Cawsom ein tywys o gwmpas yr eglwys a'r fynwent a chlywed yr hanes gan Mr Christopher Griffiths, sy'n aelod gweithgar yno. Rhyfeddem at y tŵr oedd wedi ei wneud o garreg ac at gyflwr taclus y fynwent a'r eglwys. Ymlaen wedyn i fyny'r dyffryn i gael te prynhawn blasus iawn yn y Gegin Fach yn Llanrhaeadr YM. Braf oedd cael cwmni Rhoswen Charles yno, a hithau wedi gwella'n dda wedi triniaeth i'w chlun. Diolch i Mair Ellis am ei threfniadau trylwyr. Dymunwn yn dda i Mrs Llywela Roberts sydd yn Ysbyty Amwythig ac i Miss Rhoswen Charles sydd hefyd yn aros am driniaeth.

### LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i'r ieuenctid ar eu llwyddiant yn eu harholiadau. Pob dymuniad da at y dyfodol i Mari, Llio a Tomos o gapel y Tabernacl. Llongyfarchiadau cynnes i Gerwyn Jones, Yr Ogof, sydd wedi ennill Diploma yr Athro Perrot, Prifysgol Caerdydd, fel Myfyriwr Gorau'r Flwyddyn. Hefyd i'w frawd Rhodri sydd wedi ymuno ag Opera Cenedlaethol Cymru eleni. Pob hwyl i'r ddau frawd i'r dyfodol.

**GOHEBYDD** . ROBIN HUGHES

## Pont Robert

### DYMUNIADAU GORAU

Dymuniadau gorau i Rhodri a Gerwyn, Rhodri yn ymuno ag Opera Cenedlaethol Cymru a Gerwyn yn dychwelyd i Gaerdydd i astudio am ei PhD. Pob hwyl i Elen a Mari, Elen wedi dathlu ei phen-blwydd yn 21 oed a Mari yn cychwyn ar ei gyrfa coleg yn Efrog. Pob dymuniad da hefyd i Hannah Parry, Rhosymenyn, ar ei swydd newydd yng Nghroesoswallt.

**GOHEBYDD** . MARGARET BLAINEY

## Eglwys Unedig Colwyn

### ER COF ANNWYL

Yn 97 mlwydd oed, bu farw un o'n haelodau gwerthfawr a ffyddlon sef Miss Nesta Hughes. Treuliodd Nesta ei blynyddoedd cynnar yn Eglwysbach cyn symud gyda Megan ei chwaer i Hen Golwyn lle bu'n aelod ym Methesda Hen Golwyn ac wedyn yn Eglwys Unedig Colwyn. Bu Nesta'n weithgar dros ben yn lleol ac yn y Gylchdaith. Ymgartrefodd yng Nghartref Wimsley, Llandudno am rai misoedd ac roedd yn canmol y gofal yno. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu colled.

### PEN-BLWYDD ARBENNIG

Llongyfarchiadau i'r Parchedig Ifor Jones oedd yn 80 ar Awst 3ydd.

### CYD-ADDOLI

Drwy gydol mis Awst buom yn ymuno â chyfeillion o wahanol Eglwysi'r fro a chawsom wasanaethau bendithiol yng nghwmni'n gilydd. Roedd y cennad oedd i ddod i Ebeneser ar Awst 12 yn methu bod yn bresennol ond roeddem yn falch o weld un o'n haelodau ni sef Owen Morris, pregethwr ar brawf, yn llenwi'r bwlch yn addas iawn. Roedd y gwasanaeth yn Horeb ar Awst 26 o dan ofal y Parchedig Arglwydd Roger Roberts gyda Mr Gwyn Jones wrth yr organ. Diolch i'r ddau ohonynt. Anfonwn ein cofion annwyl at y cyfeillion sy'n methu dod i'r oedfaon oherwydd llesgedd.

**GOHEBYDD** . RHIANNON JONES

## Ardal Bathafarn

### OEDFAON YR HAF

Bu haf eleni yn un i'w gofio, gyda'r poethder diddiwedd – yn sicr i'w gymharu â haf 1976. Daeth cynulleidfa dda i bob un o'r gwasanaethau undebol yn Rhuthun yn ystod Awst, ym Methania, Tabernacl, Heol y Parc a Bathafarn. Y Parchedig Marc Morgan oedd ein cennad ym Mathafarn a chafwyd anerchiad grymus iawn ganddo. Diolch o galon iddo ac i Rhian am gyfeilio, i Dafydd am gyhoeddi, i Rhian a Rhodri am lanhau'r addoldy ac i Meta am roi'r blodau. Braf gweld Margaret hefyd gyda Marc.

### YR EISTEDDFOD

Braf oedd gweld y Parchedig Martin Evans-Jones gyda Meibion Marchan yn canu ar lwyfan y Brifwyl. Da iawn nhw.

### S4C

Bu Llinos, wyres y diweddar Godfrey a Mair Parry, yn sgwrsio ar raglen 'Heno' am ei phrofiadau gyda chlefyd cancr yn ei harddegau ac wedyn pan oedd yn 24 oed. Ein cofion atynt fel teulu.

### CYDYMDEIMLO

Estynnwn ein cydymdeimlad at Meta Beech a'r teulu o golli chwaer yng nghyfraith a modryb sef Ann Beech, Plas yn Iâl, Bryneglwys. Yr un yw ein cydymdeimlad â Llew ac Audrey, o golli chwaer a chwaer yng nghyfraith annwyl sef Dorothy Roberts, gweddw Aled Ellis Roberts, Corwen gynt. Cydymdeimlwn hefyd â holl gysylltiadau teuluol y ddiweddar Olwen Roberts, Borth y Gest. Bu Olwen yn athrawes ym Mryneglwys a Llandrillo flynyddoedd yn ôl a'i diweddar briod Gwylfa yn brifathro Gwyddelwern a'r Bala.

### LLONGYFARCH

Dymuniadau gorau i Meta ar enedigaeth gor-wyres sef Ellie May, merch fach i Rob a Hanna ac wyres i Alison a Paul. Llongyfarchiadau i Mali, wyres Meta, ar wneud yn rhagorol yn yr arholiadau TGAU eleni. Ein dymuniadau gorau i Steffan Parry, Tŷ Ucha'r Llyn, yn ei swydd newydd yn dysgu yn Ysgol Twm o'r Nant.

### PRIODAS

Llongyfarchiadau calonnog iawn i Awen (merch Rhian a Rhodri) ac Ifan Morgan o Gapel Coch, Ynys Môn, ar achlysur hapus eu priodas ym Mathafarn ym mis Medi. Boed bendith ar y pâr ifanc.

### COFION

Da deall fod Audrey Jones wedi dod adref o'r ysbyty ac felly hefyd Eva Rogers-Jones sydd yn awr yng Nghartref Bryn Derwen, Llanelwy. Ein cofion hefyd at Gretta Davies yn Nolwen ac Ifor Parry ym Mhlas Gwyn. Meddwl amdanoch i gyd, gyda'n cofion anwylaf.

**GOHEBYDD** . ELIZABETH JONES

## Ebeneser, Dolgellau

### CYDYMDEIMLO

Bu farw Mrs Thelma Parry, Cae Gwyn, Llanfachreth ar Awst 16eg a chynhaliwyd ei hangladd yn Ebeneser o dan ofal y Diacon Stephen Roe. Cydymdeimlwn â'i merch, Ruth, y teulu a'i ffrindiau oll yn eu profedigaeth.

### GWELLHAD

Dymunwn lwyr wellhad i Mrs. Marian Humphreys sydd gartref o'r ysbyty erbyn hyn.

**GOHEBYDD** . GWYNETH MEREDITH

## Horeb, Llanrwst

### ER COF ANNWYL

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth aelod ffyddlon a gwerthfawr iawn sef Mrs Margaret Hughes a hithau newydd gyrraedd ei phen-blwydd yn 98 oed. Roedd hi wedi ymgartrefu yng Nghartref y Borth, Llanrwst, lle cafodd ofal arbennig, ers dros flwyddyn. Ganed Mrs Hughes ym Mhenmaenmawr ac aeth i hyfforddi fel nyrs yn Lerpwl. Cafodd salwch enbyd yno a bu rhaid dychwelyd adref. Ymhen amser daeth i Lanrwst i ofalu am wraig wael. Daeth mab y wraig adref o'r awyrlu, sef Emlyn Hughes, a dyna ddechrau carwriaeth a phartneriaeth a barhaodd am oes. Wedi priodi ac ymgartrefu yn Llanrwst, bu capel Horeb yn ganolbwynt i fywyd y ddau. Roedd Emlyn yn organydd penigamp a Margaret yn gofalu am fwrdd y cymun a chyn hynny yn athrawes ysgol Sul. Cynhaliwyd ei hangladd dan ofal y Parchedig R Ifor Jones.

### COFION

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan at Mrs Rhian Jones, gwraig y Parchedig R Ifor Jones.

**GOHEBYDD** . EIRA JONES

## Ebeneser, Caernarfon

### GWELLHAD BUAN

Yn dilyn damwain, cafodd Mary Christine Jones driniaeth er mwyn cael penysgwydd newydd. Da yw deall ei bod yn cryfhau'n foddhaol. Dymuniadau gorau hefyd i Lil Watkins, aelod arall ffyddlon ac uchel ei pharch, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac i Blodwen Griffiths sydd yn parhau i wella.

### YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Llongyfarchiadau i Osian Trefor Hughes, ŵyr Ronnie a Gwenda, ar ennill y drydedd wobr yng nghystadleuaeth unawd bechgyn 12-16 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

### LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau i Tomos, ŵyr John a Gwenno Hughes, ar lwyddo yn ei arholiadau Lefel A, ac i'w gyfnither Cadi Llwyd Jones (wyres Barry ac Olwen Jones) ar ei llwyddiant yn yr arholiadau TGAU. Rydym yn falch iawn hefyd o lwyddiant Alis Francis a Nel Hughes, dwy gyfnither a fu'n ffyddlon i weithgareddau'r Ysgol Sul, yn eu harholiadau TGAU. Llongyfarchiadau yn ogystal i Ffion Medi, wyres Buddug, ar ennill gradd mewn Gwyddorau Meddygol.

### CROESO

Roeddem yn falch o gael cwmni Ffion

Rowlinson yn ystod mis Awst. Cymerodd ran yn y gwasanaeth ar Sul olaf Awst, dan ofal ein gweinidog y Parchedig Richard Gillion.

**DIOLCH**



Talwyd teyrnged afaelgar ar Sul olaf Awst, gan lywydd y mis sef Eira Owain, mewn gwerthfawrogiad o wasanaeth gwerthfawr Megan Roberts a fu'n ysgrifennydd Ebeneser am nifer o flynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwn wynebodd broblemau dirifedi oherwydd cyflwr adeiladwaith yr eglwys; cafodd hefyd lawenydd o chwarae rhan allweddol yn y gwaith o agor y Ganolfan. Mewn gwerthfawrogiad o'i holl waith cyflwynwyd siec i Megan gan Carol Davis ar ran Urdd y Chwiorydd, ynghyd â thusw hardd o flodau. Darparwyd paned o de ar ein cyfer a chawsom gyfle i flasu'r gacen hardd a baratowyd ar gyfer yr achlysur. Diolch i Carol Davis a Gwenllian Roberts am y trefniadau.

**GOHEBYDD** . BRANWEN L. EDWARDS

## *Shiloh, Tregarth*

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Paul a Ffion Rowlinson a'r teulu ar farwolaeth tad Paul.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i'n pobol ifanc yn Shiloh ar eu llwyddiant mewn arholiadau coleg, ysgol neu mewn gwaith. Rydym yn ymfalchïo yn eich llwyddiant.

**PEN-BLWYDDI ARBENNIG**
Dathlodd Wynne Roberts ben-blwydd arbennig iawn ar Awst 23. Teithiodd ei fab Paul o Seland Newydd i ddathlu pen-blwydd ei dad yn 90 oed. Drwy gyfrwng y *Gwyliedydd,* hoffai Wynne ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd. Rydym yn falch iawn fod Wynne yn well ar ôl y codwm a gafodd yn ddiweddar hefyd. Dymuniadau gorau yn ogystal i un arall o flaenoriaid Shiloh, sef Mrs Edith Hughes, sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 98 mlwydd oed ym mis Medi.

**Dyma benillion a ganwyd i Wynne ar ei ben-blwydd yn 90**

Mae'r gŵr sy'n byw'n Bryn Difyr
Yn dathlu diwrnod mawr,
Mae'n ddeg a phedwar ugain,
Rhown floedd "Hwre" yn awr.
Mae rhai yn ei adnabod
Fel Wynne o Dan y Bwlch,
Ond waeth pa run yw'ch dewis
Cyfarchwch yn ddi-fwlch.

Mae'n dipyn o hanesydd
Cyfarwydd â'i hen fro,
Mae'n cofio bron iawn popeth
Ddigwyddodd iddo fo.
Y fo sy'n hel y casgliad
A weindio'r cloc yn chwim,
Y fo sy'n agor drysau'r
Toiledau a phob dim.

Gwasanaeth "Trefniant Lleol"
A gawn o dro i dro,
Mae'n dewis bod y cyntaf
I roi ei neges O;
Fe gaiff ymlacio wedyn
Yn hapus iawn ei wedd,
Yn gwrando ar y gweddill
Neu 'napio' yn ei sedd!

Dymunwn Ben-blwydd Hapus
Mae'n haeddu cael y clod,
Bendithier ef ag iechyd –
Y cant yn awr fo'r nod.
Diolchwn am ffyddlondeb,
Cymwynas lawer tro
I'r achos yma'n Shiloh
Braint cael ei nabod o.
*Wynn ac Eirwen*



**GOHEBYDD** . GWENDA DAVIES

SUT MAE
## GWEITHREDU DROS BLANT
YN GWEITHIO

Buan y daw tymor y Nadolig! Ydych chi am helpu Siôn Corn?
Os mai "ydw" yw'r ateb, beth am brynu anrheg(ion) ychwanegol tra byddwch allan yn siopa adeg y Nadolig?
Mae *Gweithredu dros Blant* yn rhedeg sawl prosiect ac ar adeg y Nadolig mae'n gyfle i roi anrheg i'r plant/pobl ifanc
(o 0 i 25 oed) na fyddant efallai yn cael anrheg unrhyw adeg arall o'r flwyddyn.
Dyma enghreifftiau o bethau y gellir eu rhoi:
Gemau Bwrdd – pob oedran
Llyfrau
Jig-sos - pob oedran
"Selection boxes"
Llyfrau Lliwio
Deunydd Lliwio
Nwyddau ymolchi – i bobl ifanc
Cardiau Rhodd (*Gift Cards*) x£5

*Gofynnir, yn garedig, i chi beidio â lapio'r anrhegion.* Am fwy o fanylion cysylltwch â'r: Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan, Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
01978 756717 cwrteden@gmail.com

Dyma rai o'r prosiectau fydd yn derbyn yr anrhegion:
Gwasanaeth cefnogi rhieni Conwy a Sir Ddinbych; Dechrau'n Deg Sir Ddinbych; Arosfa - Gwasanaeth Gwyliau Byr i rai gydag Anabledd;
Cartref Preswyl Tan y Dre; Prosiect PALS; Gofalwyr Ifanc Gwynedd a Môn;
Prosiect Teuluol Sir y Fflint

**Rhoddion**
Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at *Gweithredu dros Blant*, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

| | |
|---|---|
| Eglwys St Paul, Aberystwyth | £25.00 |
| Ebeneser, Treuddyn | £20.00 |
| Salem, Pentre Helygain | £35.00 |
| Pendref, Yr Wyddgrug | £50.00 |
| Eleri Jones (Dathliad) | £40.00 |
| Margaret Morgan | £45.00 |
| Shiloh, Tregarth | £50.00 |
| Eglwys Fethodistaidd Unedig Colwyn | £150.00 |

Anfonwyd cyfanswm o £415.00 yn enw Synod Cymru.

Mae'r ymgyrch anrhegion Nadolig eisoes wedi ei lansio; bydd angen derbyn yr anrhegion erbyn diwedd mis Tachwedd er mwyn eu trosglwyddo i'r swyddfa yn y Rhyl. Mae cardiau Nadolig ar werth er budd Gweithredu dros Blant - bydd y rhain ar gael mewn cyfarfodydd sydd ynghlwm â Synod Cymru. Cofiwch gysylltu â ni os hoffech fwy o fanylion. Gyda diolch am eich cefnogaeth.
**Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan**



# Gŵyl Coda *gan Delyth Wyn Davies*

Ar yr unig benwythnos gwlyb ym mis Gorffennaf eleni, daeth tua 250 o bobl o bob rhan o Gymru ynghyd i ŵyl gyntaf Coda. Gŵyl gelfyddydol Gristnogol ydyw sydd â'r nod o symbylu pobl i weithredu eu ffydd a'r thema eleni oedd Cywain Gobaith. I'r rhai sy'n gyfarwydd â gwyliau Greenbelt yn Lloegr a Solas yn yr Alban buasech wedi teimlo'n gartrefol yn y cae sy'n rhan o faes gwersylla ar gyrion Llanidloes gyda phebyll mawr a charafannau mewn un rhan a chyfres o bebyll mawr gan gynnwys dau 'big top' mewn rhan arall. Yn y gwahanol leoliadau hyn cafwyd siaradwyr ysbrydoledig, perfformwyr penigamp, gweithdai heriol a chyfleoedd i fyfyrio gyda chymorth gweithiau celf, y cyfan yn gwau ynghyd elfennau o gelfyddyd a ffydd, meddwl a gweithredu, a'r Gymraeg a Saesneg. Un o'r pethau mwyaf amlwg oedd y





cyfeillgarwch a ddatblygodd dros y penwythnos rhwng pobl o wahanol gefndiroedd ieithyddol a diwylliannol, ac o wahanol draddodiadau eglwysig. Yr ymdeimlad yn sicr oedd bod llawer mwy yn gyffredin nag sy'n ein gwahanu. Roedd yr awyrgylch yn hamddenol braf gyda phobl yn amlwg yn mwynhau'r arlwy.
Ymhlith y cyfraniadau Cymraeg roedd Cass Meurig ac Elise Gwilym yn canu caneuon Cristnogol ar alawon traddodiadol Cymreig, criw Coda Ni yn rhannu sut y bu iddynt gael eu trawsnewid i fod yn gymuned sy'n rhoi ffydd ar waith trwy eu perthynas a'u gwaith gyda phartneriaid yn Burkina Faso, a Wâs, sef Aled Warwick sy'n ganwr Cymraeg yn cyfuno cerddoriaeth o Gymru a Gogledd Affrica a hynny i gyfeiliant harmoniwm! Roedd hi hefyd yn agoriad llygaid i glywed hanes y Parchedig Kevin Ellis sy'n ficer ym Môn wrth iddo symud i Gymru a dysgu'r Gymraeg a darganfod ei hun fel y 'gormeswr yn y drych'. Cafodd sioe yn dwyn yr enw 'In the Psalm of Her Hand' gan Metaphysique argraff fawr arnaf, wrth i ni fynd ar daith bywyd a ffydd merch trwy feim yn cyfuno'r dwys a'r digri.
Yr uchafbwynt i mi oedd clywed am waith y tywysydd teithio Wisam Salsaa sy'n rhedeg gwesty 'Walled Off' i Banksy ym Methlehem a sut mae'n cymryd y cyfle yn y man cythryblus hwnnw i wynebu, datgelu a herio anghyfiawnder.
Y cam nesaf yw datblygu rhwydwaith Coda trwy nifer o weithgareddau 'Pethau Bychain' ac ymhen dwy flynedd y bwriad yw cynnal yr ail ŵyl gan adeiladu ar y llwyddiant a gafwyd eleni. Estynnir gwahoddiad i bob un sydd â diddordeb i fod yn rhan o'r rhwydwaith, i ymuno yn y gweithgareddau ac i wirfoddoli i helpu i drefnu a chynnal digwyddiadau'r dyfodol.

# Cynllun Efe

## *gan y Parchg John Pritchard*

Mae Cynllun Efe, yr elusen Gristnogol sy'n gwasanaethu eglwysi dalgylch papur bro Eco'r Wyddfa yn Arfon wedi penodi gweithiwr newydd. Susan Williams, Ceunant, Llanrug yw trydydd gweithiwr Cynllun Efe. Mae'n olynu Catrin Hampton a'n gweithiwr cyntaf, Andrew Settatree.
Yn ei swydd newydd, bydd Susan, fel ei rhagflaenydd Catrin, hefyd yn gwasanaethu eglwys y Bedyddwyr yng Nghaersalem, Caernarfon a Scripture Union Cymru, gan barhau'r bartneriaeth a gychwynnwyd flwyddyn yn ôl.
Wrth groesawu Susan i'r swydd mae Ymddiriedolwyr Cynllun Efe hefyd yn diolch i Catrin am y gwaith ardderchog a wnaeth yn ystod y flwyddyn y bu hi gyda ni. Cafwyd canmoliaeth a gwerthfawrogiad o'i gwaith yn yr eglwysi a'r ysgolion y bu'n ymweld â nhw ar hyd y flwyddyn. Roeddem wedi gobeithio cael ei chwmni a'i gwasanaeth am ragor o amser gan ein bod wedi ei phenodi i swydd dair blynedd. Ond



er mor siomedig ydym o'i gweld yn symud i Sir Gaerfyrddin, rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle annisgwyl a ddaeth iddi hi a'i gŵr Corey i wasanaethu eu Harglwydd gyda'i gilydd mewn swyddi newydd yno. Dymunwn bob bendith a llawenydd i'r ddau ohonynt yn eu cartref a'u gwaith newydd.
Mae Susan wedi cychwyn ei swydd newydd ers dechrau Medi. Nid yw'r gwaith yn newydd nac yn ddieithr iddi oherwydd bu yng nghanol gwaith Cynllun Efe o'r cychwyn. Dros rai misoedd y llynedd, wedi ymadawiad Andrew Settatree i swydd newydd gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Llŷn ac Eifionydd, a chyn penodiad Catrin, bu Susan yn parhau gwaith Efe yn yr ysgolion lleol. A thros y flwyddyn ddiwethaf hefyd, daliodd i ymweld ag amryw o'r ysgolion gyda Catrin. Mae'n edrych ymlaen yn fawr at gael parhau'r gwaith hwn.
Nid yn unig y mae Susan yn gyfarwydd â'r gwaith, y mae hi hefyd yn wyneb cyfarwydd i ysgolion ac i lawer o eglwysi dalgylch Cynllun Efe gan ei bod wedi arfer â chynnal gwasanaethau ac arwain gwahanol gyfarfodydd yn eu plith ers blynyddoedd. Dymunwn bob bendith iddi yn y gwaith, ac edrychwn ymlaen at gydweithio â hi.
Diolchwn am bob cefnogaeth sy'n ein galluogi i gynnal y genhadaeth werthfawr hon sy'n gwasanaethu eglwysi o bob enwad a holl ysgolion cynradd ein hardal. Heb y gefnogaeth ariannol a dderbyniwn oddi wrth eglwysi a chyrff enwadol ac unigolion ni fyddem wedi llwyddo i gynnal gweithiwr plant, ieuenctid a theuluoedd yn y fro hon ers deng mlynedd. Mae'r gefnogaeth honno yn ein galluogi i fentro yn awr i wahodd Susan i weithio gyda ni dros y tair blynedd nesaf. Gweddïwch drosti a throsom ninnau os gwelwch yn dda.



# Ffarwel, Iwerddon!

*gan y Parchedig Philip Barnett*



Bellach mae Catherine a finnau yn ôl o’n hantur ddiweddaraf pan fuom yn teithio ar hyd arfordir yr Ynys Werdd i godi pres tuag at Ymchwil MS.

Cyn cychwyn cawsom ffarwel fendigedig yn Eglwysbach, Dyffryn Conwy, pan ddaeth rhyw dri deg o ffrindiau o’r capel a’r pentref ynghyd i fwynhau te a sgons ym Min Afon, cartref Deryl a Dewi Jones. Fel o’r blaen daeth S4C i ffilmio ar gyfer rhaglen *Heno* a chafodd pawb eu heiliad o enwogrwydd.


Aeth y siwrne yn llwyddiannus iawn a chawsom gyfle i gyfarfod â llawer o bobl ddiddorol, profi amrywiaeth o sefyllfaoedd newydd a mwynhau’r cefn gwlad sydd cystal (bron) â’n hannwyl Gymru! Ym mhob man roedd y Gwyddelod yn groesawgar iawn a daethom adref wedi gwneud dwsinau o ffrindiau newydd.

Rhaid dweud ein bod wedi blino ar ôl dod adref. Mae cryn dipyn o straen mewn siwrne fel hon – cyrraedd rhyw dref, cael pryd o fwyd yn y B & B, mynd i’n gwlâu, codi yn y bore ac yn syth ar ôl brecwast i ffwrdd â ni i’r lle nesaf. Wedi dweud hynny cawsom groeso cynnes iawn ym mhob man ac roedd y profiad yn werth pob milltir o’r daith.

Tuag at ddiwedd y daith arhosom ni gyda ffrindiau yn Portaferry ger Belfast sydd yn aelodau yn yr Eglwys Fethodistaidd yno. Codwyd y capel ym 1780 a bellach dyma gapel hynaf yr Eglwys Fethodistaidd yn Iwerddon sydd yn parhau i gael ei ddefnyddio’n gyson. Cefais y cyfle i bregethu yno ar fore Sul a braint oedd bod yn y fath olyniaeth gan i John Wesley bregethu yn Portaferry ddwywaith.

Rhwng y tair taith rydym wedi’u gwneud, mae’r car bach wedi codi mwy na £35,000 er budd Cymdeithas MS. Diolch yn fawr iawn am yr holl gyfraniadau hael tuag at ein hachos. Mae cefnogaeth ffrindiau lawer o bell ac agos wedi bod yn anhygoel ac mae’r gronfa, erbyn rŵan, wedi cyrraedd £8,553 gyda mwy o arian yn dod i mewn bob dydd. Rydym yn dra diolchgar i bob un ohonoch.

## cartŵn






# Fel Na Byddo Mwyach?

*gan y Parchedig Martin Evans-Jones*

**I goffáu canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd cyntaf, mae’r Eglwysi ym Mhrydain yn ein hannog i gymryd rhan, rhwng Awst a Thachwedd eleni, mewn 100 niwrnod o weddi am heddwch, gobaith, a chymod trwy’r byd.**

**Ond rhaid gofyn – Beth yw’r pwynt? Tra mae 50 miliwn o bobl yn ffoaduriaid o ryfeloedd a gwrthdaro yng ngwledydd tlotaf y byd heddiw, pa obaith sydd i gael heddwch yn ein byd cythryblus?**

Fel cynifer o bobl, deuthum yn ymwybodol yn gynnar iawn, am resymau teuluol, o gyflafan y Rhyfel Mawr. Rhyfel a fyddai’n rhoi terfyn ar bob rhyfel, dyna oedd yr addewid. Ar yr unfed ar ddeg o Orffennaf, 1917, lladdwyd fy nhaid, Major Robert Mills, wrth annog y milwyr dan ei ofal i ymosod ar y gelyn oedd yn ymguddio yng nghoedwig Mametz. Gadawyd y rhan fwyaf ohonynt yn gelain dan gawod o fwledi brwnt. Pan arhoswn yn hogyn yn nhŷ Nain yn Nolgellau, arferwn bicio i fyny i’r llofft i wisgo siaced goch yr RWF, sef ei siaced ef, heb unrhyw syniad o’r hyn yr aeth trwyddo heb sôn am ei deulu bach o wraig weddw a dau o blant ifanc.

A ydym, fel dynolryw, wedi ein cyflyru gan ein bioleg i ryfela? Ai rhan annatod o’n natur ydyw? Taro’n ôl a lladd gan ddilyn ein greddf, fel Cain gynt? Ynteu a yw’n bosibl, fel y gorchmynnodd Iesu i’w ddisgyblion, inni “garu ein gelynion”?


Mae pob rhywogaeth yn tueddu i fod yn ymwybodol o’u tiriogaeth. Maent yn dueddol o frwydro i amddiffyn eu nyth, eu coed, eu craig, eu darn bach o dir. Mae pobl yn brwydro er mwyn ennill mwy o eiddo, neu i amddiffyn beth sydd ganddynt, neu dros gred, neu o falchder, neu er mwyn dial.

Fel cenhedloedd, ers y Rhyfel Byd cyntaf, rydym wedi creu sefydliadau rhyngwladol, fel Cynghrair y Cenhedloedd a’r Cenhedloedd Unedig, i geisio darganfod ffyrdd o osgoi rhyfel – ond heb lawer o lwyddiant.

Dyma a ddywedodd yr Athro Margaret Macmillan, wrth draethu’r Darlithoedd Reith ar y radio eleni:

“Mae rhyfel wedi ei wreiddio mor ddwfn ynom fel bod yn rhaid inni gydnabod hynny, ond nid yw hyn yn golygu ei dderbyn. Er hynny, mae’n ofnynol inni ddeall rhyfel, paham mae pobol yn brwydro, ac ystyried pa effaith mae yn ei chael ar gymdeithas, a sut i ddod ag ef i ben. Os na wnawn hyn yn well, mi rydym am gael ein hunain mewn sefyllfaoedd lle nad oes dewis arall, a bydd hynny’n beryglus iawn.”

Beth, felly, allwn ni ei wneud? Wel gweddïo, wrth gwrs, fel mae’r alwad yma gan yr Eglwysi yn argymell. Ond, wrth derfynu, a gaf i gynnig diffiniad arall o weddi a ddeuthum ar ei draws yn ddiweddar, gan ddiwinydd o’r enw Walter Brueggeman: “Gweddi yw’r gwrthodiad i dderbyn pethau fel y maent”. Dyna oedd hanes Betty Williams a Mairead Maguire o Ogledd Iwerddon, a ffurfiodd Gymuned Pobl Heddwch i ddod â’r terfysg yno i ben ac a enillodd Wobr Heddwch Nobel yn 1977 am eu gwaith. Dyma weddi Archesgob Caergrawnt: “Arglwydd, nertha ein calonnau, ein dwylo, a’n meddyliau, i weithio gyda’n gilydd dros heddwch; i’th weld di yn ein gilydd, ac i chwilio am dy deyrnas uwchlaw popeth; fel y gwelir dy ewyllys yn cael ei chyflawni, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen”.



Weeping Window gan Paul Cummins a Tom Piper, yn y Senedd yng Nghaerdydd 2017]

**Cynhelir cyfarfod Merched Methodistaidd yn Eglwys y Maes, Caernarfon am 2.30 y pnawn, Hydref 13 2018. Croeso cynnes i bawb.**

**Llythyr at y Golygyddion oddi wrth Lionel Madden**

Annwyl Robin a Ffion
Wedi i’r teulu a fu’n aros gyda ni dros yr haf fynd adref, cefais gyfle i glywed y CD. Eisteddais i lawr a gwrando ar y cyfan. Mae’n wych! Llongyfarchiadau cynhesaf ichi am eich holl ymdrechion i wneud hyn yn bosibl.

Cofion cynnes iawn a diolch eto,
Lionel

Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y tanysgrifiadau a’r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu’r Gwyliedydd.

| | |
|---|---|
| Mrs G R Ellis Bebington | £10-00 |
| Dienw | £50-00 |
| Mrs E. Edge, Colwyn | £5-00 |
| Dr a Mrs R T Pritchard, Evesham | £40-00 |
| Mrs Megan Jones, Corwen | £25-00 |
| Parchg D M a Mrs Margaret Morgan, Gwersyllt | £10-00 |
| Cyfanswm | £140 |

Dymuna Marc, Margaret ac Owain, Llety’r Bugail, Gwersyllt ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli mam, mam-yng-nghyfraith a mam-gu annwyl.




# TUDALEN Y PLANT



## Diolch

**Diolch am ein bwyd bob dydd. Diolch am fyd mor hardd ac am y creaduriaid rhyfeddol sy'n byw ynddo.**





Rhowch ddiolch iddo! A bendithio ei enw! Achos mae'r ARGLWYDD mor dda! Mae ei haelioni yn ddiddiwedd
**(Salm 100: 4-5 beibl.net)**

## Chwilair

**arglwydd**
**haelioni**
**bendithio**
**diolch**
**enw**
**bwyd**
**dydd**
**hardd**
**creaduriaid**
**byw**



| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| c | i | b | e | n | d | i | th | i | o | b |
| h | r | o | i | n | h | a | e | l | i | o |
| a | n | e | dd | e | w | dd | a | b | y | w |
| e | r | a | a | w | y | g | u | g | dd | b |
| l | u | g | r | d | a | r | b | l | g | r |
| i | ch | e | g | y | u | n | y | w | u | n |
| o | b | i | l | h | a | r | d | ch | y | b |
| n | c | a | w | e | n | o | i | n | r | d |
| i | h | b | y | c | r | e | o | a | d | i |
| h | a | r | dd | b | e | y | l | w | i | y |
| a | r | g | l | ch | b | w | ch | dd | o | d |